Gwefannau annymunol

Nid oes corff canolog sy'n monitro neu'n cymeradwyo cynnwys neu weithgarwch ar y rhyngrwyd cyn iddo fynd ar-lein. Mae hyn yn golygu bod rhai cynnwys yn erbyn y gyfraith, yn peri gofid neu'n achosi problemau.

Gallai'r math hwn o ddeunydd fod ar wefannau neu ystafelloedd sgwrsio neu grwpiau newyddion. Mae **sbam** yn ffordd gyffredin iawn o dderbyn deunydd annymunol. Sbam yw e-byst na ofynnwyd amdanynt sy'n cael eu hanfon at nifer fawr o gyfeiriadau e-bost sydd yn aml yn hysbysebu cynhyrchion neu bornograffi anghyfreithlon. Gallwch osod meddalwedd i ffiltro'r sbam - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Pornograffi

Caiff pornograffi hefyd ei adnabod fel **cynnwys oedolion**. Mae yn erbyn y gyfraith i gyhoeddi rhai deunydd pornograffig yn y DU os caiff ei ystyried yn **fasweddus** neu'n **eithafol**. Mae hefyd yn drosedd. Mae hefyd yn drosedd i werthu pornograffi dros y rhyngrwyd heb unrhyw ffordd o wirio os yw'r cwsmer dros 18 oed. Os ydych yn dod ar ei draws, cysylltwch â'r heddlu. Fel arall, nid yw yn erbyn y gyfraith bod pornograffi ar gael ar-lein.

Gallwch osod meddalwedd i atal plant rhag dod ar draws pornograffi ar y rhyngrwyd, er enghraifft, rhaglenni ffiltro, systemau graddio, peiriannau chwilio diogel a systemau monitro. Am fwy o wybodaeth am feddalwedd, ewch at wefan y BBC – gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Mewn llawer o weithleoedd, mae yna bolisïau sy'n dweud nad oes hawl gan weithwyr i edrych ar safleoedd pornograffig ar gyfrifiaduron gwaith. Os oes gennych un o'r polisïau hyn, gallwch gael eich disgyblu neu eich diswyddo am edrych ar bornograffi ar-lein yn y gwaith.

Pornograffi plant

Mae yn erbyn y gyfraith i gymryd, berchen, dangos, arddangos neu hysbysebu lluniau anweddus o blant. Mae hyn yn golygu unrhyw luniau o blant sy'n ymddangos i fod dan 18 oed ac sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol neu'n sefyll mewn ffordd bryfoclyd. Mae yn erbyn y gyfraith i lwytho'r lluniau hyn o'r rhyngrwyd a hefyd i'w storio a'u hargraffu. Os ydych yn ymwybodol o rywun sydd wedi llwytho pornograffi plant o'r rhyngrwyd, cysylltwch â'r heddlu. Neu gallwch ei riportio i **Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd** - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Meithrin perthynas amhriodol ar-lein

Meithrin perthynas amhriodol ar-lein yw defnyddio'r rhyngrwyd i glosio at blant neu bobl ifanc gyda'r bwriad o'u cam-drin yn rhywiol. Mae hyn yn erbyn y gyfraith. Os hoffech fwy o wybodaeth am sut i'w adnabod, ewch at wefan elusen Action for Children yn www.actionforchildren.org.uk. Os ydych yn gwybod bod rhywun yn meithrin perthynas amhriodol ar-lein neu os ydych yn dioddef ohono, cysylltwch â'r heddlu neu Childline - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Cynnwys masweddus

Mae cynnwys masweddus yn erbyn y gyfraith. Gallai enghreifftiau o gynnwys masweddus fod yn ddelweddau o drais rhywiol neu artaith. Dywedwch wrth yr heddlu am ddeunydd masweddus neu cysylltwch â Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd – gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Deunydd hiliol

Mae deunydd hiliol yn erbyn y gyfraith. Mae'n drosedd i ennyn casineb hiliol ar sail lliw, hil, cenedl neu darddiad ethnig neu genedlaethol. Dywedwch wrth yr heddlu neu'r Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd am unrhyw ddeunydd hiliol - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Gwefannau afiach

Mae rhai gwefannau, sy'n seiliedig y tu allan i'r DU, yn cyhoeddi deunydd afiach megis dienyddiadau. Os yw'r lluniau hyn yn aflonyddu arnoch, gallech ystyried cwyno i'r Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP) y wlad dan sylw. Gallech hefyd osod meddalwedd ar eich cyfrifiadur a fydd yn atal y gwefannau hyn - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon. Os ydych yn llwytho lluniau afiach o'r rhyngrwyd ac yn eu dangos i bobl eraill, gallai hyn fod yn erbyn y gyfraith.

Ystafelloedd sgwrsio

Ystafell sgwrsio yw safle ar-lein lle gall nifer o wahanol bobl gyfathrebu ar yr un pryd. Gellir camddefnyddio ystafelloedd sgwrsio oherwydd ni allwch weld y bobl yr ydych yn siarad â nhw. Mae'n rhwydd ffugio hunaniaeth ar-lein, felly ni allwch fod yn siŵr pwy yw'r bobl eraill sydd yn yr ystafell sgwrsio. Pan ydych yn defnyddio ystafell sgwrsio, cadwch eich manylion personol yn gyfrinachol a pheidiwch â rhoi manylion eich ffrindiau na'ch teulu chwaith. Defnyddiwch lysenw pan ydych yn sgwrsio ar-lein. Byddwch yn ofalus os ydych yn cwrdd â rhywun a wnaethoch gyfarfod mewn ystafell sgwrsio. Hefyd, nid yw fel arfer yn syniad da i anfon ffotograffau o'ch hun at rywun arall dros y rhyngrwyd. Os ydych yn tystio neu brofi gweithgarwch anweddus mewn ystafell sgwrsio, cysylltwch â'r heddlu.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Plant a'r rhyngrwyd

Os ydych yn pryderu am fynediad plant i'r rhyngrwyd, gallwch osod meddalwedd rheoli rhieniol ar eich cyfrifiadur. Mae hyn y monitro pa wefannau y gall eich plentyn eu gweld a phwy all e-bostio neu dderbyn e-byst wrtho. Gall atal mynediad i bob ystafell sgwrsio neu rai ohonynt. Mae'n bosib yr hoffech i'ch plentyn ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio 'cymedrol' lle mae oedolyn sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig yn bresennol pryd bynnag y bydd yr ystafell sgwrsio ar agor. Bydd yr oedolyn yn ymyrryd i stopio unrhyw gyfathrebu anweddus. Am fwy o wybodaeth am feddalwedd, ewch at wefan y BBC - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Bwlio, aflonyddu a stelcian ar-lein

Er nad yw'n gyffredin iawn i gael eich bwlio neu gael rhywun i aflonyddu arnoch drwy e-bost neu mewn ystafelloedd sgwrsio, mae'n gallu digwydd. Cofiwch nad eich bai chi ydyw os ydych yn derbyn negeseuon annymunol. Os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc, sicrhewch eich bod yn dweud wrth rywun yr ydych yn ymddiried ynddo am y negeseuon hyn, er enghraifft, eich rhieni neu athro. Cofnodwch y dyddiadau a'r amserau pan ydych yn derbyn unrhyw e-byst bygythiol a chysylltwch â'r heddlu. Newidiwch eich cyfeiriad e-bost os ydych yn parhau i dderbyn negeseuon cas. Gallwch hefyd riportio'r e-byst i'r Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP) lle daeth yr e-bost. Anfonwch y cwyn at abuse@enwISP, er enghraifft, abuse@yahoo.com.

Os ydych yn poeni am fwlio ar-lein, mae gan Bullying UK wefan defnyddiol sy'n cynnwys llawer o wybodaeth i'ch helpu chi (www.bullying.co.uk).

Gamblo ar-lein

Mae yn erbyn y gyfraith i wefannau gamblo ar-lein ganiatáu unrhyw un dan 18 oed i gamblo. Mae hefyd yn erbyn y gyfraith i rywun dan 18 oed i gamblo gydag arian, cardiau credyd neu gardiau debyd. Fodd bynnag, nid yw llawer o wefannau gamblo ar-lein yn cyflawni'r gwiriadau angenrheidiol i atal pobl dan 18 oed rhag gamblo. Os ydych yn rhiant i blentyn sydd wedi colli arian drwy gamblo anghyfreithlon, cysylltwch â'r heddlu. Fodd bynnag, ni fydd yr heddlu yn gallu cymryd camau oni bai bod y wefan yn seiliedig yn y DU. Dylech fod yn ymwybodol bod llawer ohonynt wedi'u lleoli dramor. Gallwch osod meddalwedd rheoli rhieniol ar eich cyfrifiadur i atal pobl ifanc dan 18 oed rhag gamblo ar-lein - gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Mae'n bosib bod rhai pobl yn teimlo nad oes ganddynt reolaeth dros eu gamblo ar-lein. Mae yna wefan defnyddiol sydd â chyngor a gwybodaeth bellach ynglŷn â phroblemau gamblo (www.gamcare.org.uk).

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Sefydliad Gwarchod y Rhyngrwyd Mae'r sefydliad hwn yn gweithio gyda'r llywodraeth, yr heddlu a chwmnïau rhyngrwyd er mwyn ceisio cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon oddi ar y rhyngrwyd. Gallwch riportio deunydd anghyfreithlon ar eu gwefan: www.iwf.org.uk Gallwch wneud hyn yn anhysbys.

Childline Os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n cael perthynas amhriodol ar-lein neu os oes rhywun yn aflonyddu arnoch drwy'r rhyngrwyd, cysylltwch â Childline ar: 0800 1111.

Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
Os ydych yn poeni am blentyn sy'n cael ei gam-drin trwy'r rhyngrwyd, gallwch gysylltu â'r NSPCC yn Lloegr a Chymru drwy'r wefan: www.nspcc.org.uk neu ffoniwch 0800 800 500. Yn Yr Alban , gallech gysylltu â llinell wybodaeth amddiffyn plant drwy'r wefan: www.infoscotland.com/childprotection neu ffoniwch 0800 022 3222.

Action for Children Mae'r elusen hon ar gyfer plant yn cynhyrchu gwefan sydd â gwybodaeth ddefnyddio i rieni am blant a'r rhyngrwyd: www.actionforchildren.org.uk.

Y BBC Mae ganddynt wybodaeth ddefnyddiol am raglenni meddalwedd i ddiogelu mynediad plant i'r rhyngrwyd a ffiltro e-byst digroeso (sbam): www.bbc.co.uk/webwise.

Y Swyddfa Gartref Maen nhw wedi cynhyrchu gwefan i blant am ddiogelwch a'r rhyngrwyd: www.thinkuknow.co.uk.

Yr heddlu - Chwiliwch am fanylion eich heddlu lleol yn Lloegr a Chymru yn <http://local.direct.gov.uk ac os ydych yn Yr Alban, ewch at www.scottish.police.uk.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Y rhyngrwyd – defnyddio deunydd pobl eraill
- Twyll ar y rhyngrwyd
- Prynu dros y rhyngrwyd

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 7 Ionawr 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr